LLEWYRCHED FELLY EICH GOLEUNI

# Y Llusern

Eglwys Ebeneser Medi / Hydref 2023 Cyfrol 94 Rhif 5



## Apêl Ffynhonnau Byw

Yng nghyfarfodydd Undeb yr Annibynwyr eleni lansiwyd apêl **Ffynhonnau Byw**, mewn cydweithrediad â Chymorth Cristnogol.

> ***“Bydd y tywod poeth yn troi'n bwll dŵr, a'r tir sych yn ffynhonnau'n ffrydio. Bydd y fan lle roedd siacaliaid yn gorweddian yn troi'n gorsydd o frwyn”  (Eseia 35:7)***

Yn ystod y flwyddyn nesaf bydd yr eglwysi Annibynnol yn codi arian tuag at brosiectau dyngarol yng Ngholombia, De America. Ceir yno dlodi mawr ac anghenion cymdeithasol dybryd. Yn y Cwrdd Eglwys diwethaf cytunwyd ein bod yn mabwysiadu elusen ddewisedig yr Undeb, sef Apêl Cymorth Cristnogol Ffynhonnau Byw ar gyfer y 12 mis nesaf. Mae rhai cynlluniau eisoes ar y gweill i godi arian, a bydd mwy i'w adrodd yn fuan.




Y mae fideo Apêl Ffynhonnau Byw ar gael ar gyfrif Youtube yr Undeb, sef Teledu Annibynwyr.

## Cyfarchiad gan y Gweinidog

Annwyl Gyd-aelodau,

Fel y gŵyr nifer ohonoch, rwyf yn cael fy rhyddhau o'm gwaith fel gweinidog Ebeneser am gyfnod Sabothol fydd yn parhau o gychwyn mis Medi hyd ddiwedd Tachwedd eleni. Golyga hyn y byddaf yn cael fy rhyddhau o'm holl gyfrifoldebau ar wahân i gynnal angladdau. Hoffwn ddiolch i ddiaconiaid yr eglwys ac i chwithau fel aelodau am eich haelioni yn caniatáu i mi gael y cyfnod arbennig hwn. Argymhelliad Undeb yr Annibynwyr yw bod pob gweinidog i gael cyfnod Sabothol pob saith mlynedd. Yn y cyfnod hwn y mae disgwyl i'r gweinidog ddilyn trywydd gwahanol gan wneud rhywbeth fydd yn adnewyddol iddo ef yn bersonol ac a fydd yn cyfoethogi ei waith fel gweinidog i Iesu Grist i'r dyfodol. Hwn yw'r cyfnod Sabothol cyntaf i mi wneud cais amdano ar ôl 37 mlynedd yn y weinidogaeth. Diolch o galon i chi am ganiatáu hyn.

Y mae rhai gweinidogion yn mynd i ffwrdd am gyfnod o dri mis gan encilio i wlad a diwylliant Cristnogol gwahanol. Mae eraill yn dilyn cyrsiau hyfforddiant arbenigol ar elfennau o waith arweinydd ac eraill drachefn yn mynychu cynadleddau.

Yr hyn a fwriadaf i ei wneud yn ystod y cyfnod Sabothol hwn yw treulio amser yn myfyrio ac ymchwilio i ddau faes penodol, sydd wedi bod yn troi a throsi yn fy meddwl ers blynyddoedd, sef tyfiant eglwysig a phlannu cynulleidfaoedd Cymraeg newydd. Roedd y ddeubeth, mewn cyd-destun cwbl wahanol, yn rhan o fy nhraethawd Doethuriaeth, sy'n dwyn y teitl "O'r Sect i'r Enwad - Datblygiad Enwadau Ymneilltuol Cymru 1840 - 70." Yn y traethawd hwnnw roeddwn yn astudio llwyddiant a thwf yr eglwysi Ymneilltuol Cymraeg yn ystod y 19eg ganrif mewn cyd-destun Beiblaidd, cymdeithasegol ac ysbrydol. Plannwyd toreth o gynulleidfaoedd newydd, adeiladwyd gormodedd o gapeli ac am gyfnod o dros 100 mlynedd bu'r twf yn rhyfeddol.

Nawr rwy'n gweinidogaethu yn bell ar ôl diwedd y cyfnod hwnnw o dwf ac yn dyst, fel pawb ohonom, i'r dirywiad ysbrydol mawr. (Rhaid bod yn ofalus o'n defnydd o eiriau fel llwyddiant a ffyniant gan fod hynny'n gallu digwydd mewn eglwysi unigol hyd yn oed mewn cyfnod o ddirywiad ystadegol.) Byddaf yn gofyn cwestiynau fel, beth

yw'r ffordd orau i ymateb i'n sefyllfa fel Cristnogion yng Nghymru heddiw? Pa gamau sydd angen eu cymryd ar fyrder?

I ba gyfeiriad y mae'r Ysbryd Glân yn ein harwain? Ble mae'r teuluoedd a'r bobl ifanc? Pam fod rhai eglwysi Saesneg yn tyfu? A oes angen bellach plannu cynulleidfaoedd newydd? Mae rhai o'r atebion yn amlwg ond mae gwir angen myfyrio a meddwl am ein tystiolaeth Gristnogol nawr a gweithredu ar yr arweiniad gawn cyn gynted â phosibl.

Bwriadaf wneud o leiaf 4 peth sef; 1. Cyfweld ag arweinyddion mewn eglwysi sy'n tyfu. 2. Siarad gyda rhai sydd wedi plannu cynulleidfaoedd newydd yn ddiweddar. 3. Darllen llenyddiaeth addas. 4. Cychwyn blog sef sabothal.blog er mwyn rhannu'n wythnosol yr hyn a ddysgaf gydag unrhyw un fydd â diddordeb clywed. Ar ddiwedd y cyfnod, os Duw a'i myn, byddaf yn cyhoeddi fy argraffiadau fel y gall eraill elwa o haelioni Eglwys Ebeneser.

Os yw'r sylwadau uchod wedi ennyn chwilfrydedd ynoch a'ch bod am rannu gweledigaeth, sylwadau, llyfryddiaeth, rhwystredigaethau, strategaethau, gyda mi, gallwch wneud hynny trwy e-bost https://sabothal.blog Byddwn yn eithriadol o ddiolchgar.

Y mae holl waith Ebeneser yn ystod y tri mis wedi ei ymddiried i'r Diaconiaid a'r aelodaeth a phob bwlch eisoes wedi ei lenwi. Hoffwn ddiolch i'r rhai hynny sydd wedi cymryd cyfrifoldebau ychwanegol ar eu hysgwyddau. Os ydych angen cysylltu gydag Ebeneser, gellir gwneud hynny trwy ein Hysgrifennydd Gwenda Lewis, gwendalewis@btinternet.com

Ond yn y diwedd gwaith Duw yw hwn ac felly nid ydym byth yn gwangalonni. Gweision ydym ni sy'n cael y fraint aruthrol o gredu, byw a chyhoeddi'r newyddion da am Iesu Grist ein Harglwydd a'n Gwaredwr i'r Gymru Gymraeg yn 2023. Ymlaen!

"Yn noeth y deuthum o groth fy mam, ac yn noeth y dychwelaf yno.
Yr ARGLWYDD a roddodd, a'r ARGLWYDD a ddygodd ymaith.
Bendigedig fyddo enw'r ARGLWYDD." (Job 1:21)

Annwyl John Hayes,

Ar ran DEC Cymru a'n 15 aelod elusen, ysgrifennaf i ddiolch i chi am eich ymdrechion codi arian  diweddar tuag at Apêl Daeargryn Twrci-Syria.  Rydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth arbennig yn fawr.

Fel y gwyddoch, lansiodd y DEC yr apêl hon yn dilyn y daeargryn ffyrnig a di-rybudd a darodd yn oriau mân ddydd Llun 6 Chwefror, tra yr oedd mwyafrif trigolion de Twrci a gogledd-orllewin Syria ynghwsg yn eu gwelâu. Prin iawn oedd yr amser i deuluoedd ddianc, gan arwain at farwolaeth 50,000 o bobl a llawer mwy o anafiadau. Cafodd 214,000 o adeiladau, gan gynnwys ysbytai ac ysgolion eu dinistrio neu eu difrodi, gan adael pobl yn ddigartref ganol gaeaf. Bu'r amodau rhewllyd dros nos yn fygythiad pellach i'w goroesiad.

Diolch yn fawr iawn i chi, ac i bawb arall a gyfrannodd at y gwaith trefnu ar gyfer y gyngerdd a gynhaliwyd yn Eglwys y Methodistiaid yn yr Eglwys Newydd. Diolch hefyd i'r rhai a fu mor garedig a pherfformio ar y noson. Does gen i ddim amheuaeth iddi fod yn noson i'w chofio.

Bydd yr arian a godwyd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r ymdrechion ar lawr gwlad yn Nhwrci a Syria. Roedd elusennau DEC ymhlith yr ymatebwyr cyntaf yn y ddwy wlad, yn darparu cymorth ar ffurf llochesi brys, mannau diogel wedi'u gwresogi, blancedi cynnes, bwyd a chyflenwadau o ddŵr glân. Galluogodd yr apêl iddynt allu cynyddu graddfa eu gwaith o'r cychwyn cyntaf er mwyn ymateb i'r angen.

Er nad yw'r daeargryn yn dominyddu'r penawdau bellach, gallaf eich sicrhau fod ein gwaith yn parhau. Mae'r her yn y ddwy wlad yn parhau i fod yn enfawr ac yn un sy'n esblygu yn barhaus.

Bydd elusennau DEC yn gwneud eu gorau i ymateb i’r anghenion hyn a byddwn yn cyhoeddi diweddariadau ar ein cyfryngau cymdeithasol dros yr wythnosau nesaf, ynghyd ag adroddiad ymhen ychydig fisoedd.

Ar ran yr holl bobl y bydd eich cyfraniad yn helpu, diolch yn fawr unwaith eto.

Cofion cynnes



**Siân Stephen DEC Cymru**

---



Annwyl Sian

Diolch yn fawr iawn i chi am eich llythyr o ddiolch am y cyfraniad ariannol i DEC Cymru a ddaeth yn sgil y gyngerdd elusennol diweddar.

Rwy'n hynod falch y bydd y cyfraniad ariannol yn cael effaith uniongyrchol ar lawr gwlad yn Twrci a Syria yn eich ymdrechion i ddelio gyda canlyniadau erchyll a phell-gyrhaeddol y ddaeargryn yn mis Chwefror.

Roedd yn bleser trefnu'r gyngerdd ac rwy'n ymwybodol fod y gynulleidfa wedi mwynhau noson o adloniant bendigedig gan cor merched Canna a'r unawdydd Parisa Fouldai.

Roedd mewnbwn Cynan Llwyd (Arweinydd Tear Fund Cymru) yn ystod y gyngerdd yn allweddol i'r apel ac yn gyfle i atgoffa pawb oedd yn bresennol am yr angen ddirfawr sy'n parhau yn Nhwrci a Syria.

Dymuniadau gorau i chi ar gyfer y dyfodol.

**John Hayes**

# Arwydd ffordd 

Fe basiais i fy mhrawf gyrru y tro cyntaf.....ond dydw i ddim mor sicr y buaswn i'n llwyddo heddiw – nid am fy mod yn yrrwr gwael (waeth beth ddywed Ifan!), ond oherwydd yr angen i sefyll arholiad theori. Dim ond tua thri chwestiwn ofynnwyd yn ystod y prawf ymarferol yn oes yr arth a'r blaidd, ond rhaid pasio'r 'theori' bellach, a dangos gwybodaeth drylwyr o neges arwyddion ffyrdd ymhlith pethau eraill. Yr arwydd hwn er enghraifft. ??



Cyffordd T – wel ie. Ond rhaid cyfaddef nad oeddwn i'n gwybod (neu'n cofio) bod y fraich tewach yn dangos pwy sy'n cael blaenoriaeth (teithwyr o'r dde i'r chwith).

Ar daith bywyd ceir sawl cyffordd T o'n blaen, pan mae angen penderfynu troi i'r dde neu i'r chwith e.e. dewis coleg neu brentisiaeth. Mae Duw hefyd yn dod â ni at gyffordd T o ran ein hymateb iddo Ef, a'r Arglwydd Iesu. Dymuniad Duw yw i ni droi a theithio'r ffordd sy'n ein harwain ato Ef, wrth ddilyn Iesu. Fel mae'n rhaid penderfynu troi'r car i'r dde neu'r chwith, mae pwynt yn dod pan mae Duw'n gofyn, "Wyt ti am droi ata i a'r Iesu neu gerdded y ffordd arall?"



Penderfynodd Adda (gyda help Efa, y 'back seat driver') droi i'r cyfeiriad anghywir. Troi fel arall wnaeth Josua wrth ddatgan "Dw i a'm teulu yn mynd i addoli'r Arglwydd!" (Josua 24.14). Penderfyniad yr Israeliaid ar Fynydd Carmel oedd troi at y Duw 'go iawn' (1 Brenhinoedd 18) wedi her Elias "Os mai'r Arglwydd ydy'r Duw go iawn, dilynwch e". Sylweddolodd y disgyblion (ag eithrio Jwdas) i ba gyfeiriad roedd yn rhaid iddyn nhw deithio a bu iddynt gredu yn Nuw a'i addewidion yn yr Iesu a'i wasanaethu. Roedd Paul wedi mynd ar goll yn llwyr i ddechrau,

ond yna gwnaeth 3 point turn ar ffordd Damascus. (Actau 9).



Oedi cyn penderfynu mae llawer, fel petai yna gylchfan fach nepell o'r gyffordd T sy'n rhoi cyfle Iddynt fynd rownd a rownd, heb bwyso'r *indicator* y naill ffordd neu'r llall, tuag at neu oddi wrth Dduw.



Dywed Duw "Dewch o ben draw'r byd; trowch ata i i gael eich achub." (Eseia 45.22)

Does dim map mwy eglur. Dyma gyffordd T bwysicaf ein bywyd. Ydyn ni wedi pwyso'r indicator, neu'n parhau i wastraffu amser a throi mewn cylch?

*Catrin Roberts*

---



Dywed Duw "Dewch o ben draw'r byd; trowch ata i i gael eich achub." (Eseia 45.22) beibl.ne t

Chwi, holl gyrrau'r ddaear, edrychwch ataf i'ch gwaredu, (Eseia 45.22) BCND.




---




**Cylchgronau -** Os hoffech gael copi o'r Tyst cysylltwch gydag Alison Jones. Os hoffech gael copi o'r Cristion cysylltwch gydag Arwel Williams ac os hoffech gael copi o fyfyrdodau Gair y Dydd cysylltwch gyda Petra Bennett. Os hoffech gael copi o'r Dinesydd cysylltwch gyda Gwilym Dafydd.




---

# Cyfarfodydd Angor

**CANOLFAN REACH**
**GRANGETOWN**

Mae oddeutu 30 o bobl wedi bod yn dod yn gyson i gyfarfodydd Angor yn ddiweddar ac oddeutu 10 o blant. Mae'r cyfarfodydd anffurfiol wedi bod yn llawn egni ac ymdeimlad o bresenoldeb yr Ysbryd Glân. Mae wedi bod yn wych hefyd i gael rhagor o gerddorion yn y band mawl. Os ydych chi yn adnabod pobl sy'n byw yn ardal Grangetown, beth am i chi eu gwahodd i ddod i'r cyfarfodydd sydd am 4.30 ar yr ail a'r pedwerydd Sul o bob mis? Dewiswyd y Llythyr 1af at y Thesaloniaid i edrych arno yng nghyfarfodydd mis Medi a Hydref.

> *Llythyr gan Paul, Silas a Timotheus, At bobl eglwys Dduw yn Thesalonica – y bobl sydd â pherthynas gyda Duw y Tad a'r Arglwydd Iesu Grist: Dw i'n gweddïo y byddwch chi'n profi haelioni Duw a'i heddwch dwfn.*
>
> *1 Thesaloniaid 1:1*

---

## Plant

Yr ydym yn parhau i weithio fel eglwys er mwyn adeiladu ein gwaith a'n gweithgareddau gyda theuluoedd a phlant. Yn ystod y tymor diwethaf mae wedi bod yn her i gael plant i ddod i'r gweithgareddau a drefnir ar eu cyfer. Ond rydym yn benderfynol dyfalbarhau oherwydd mai'r peth pwysicaf y gall teulu ei wneud yw magu eu plant yn sŵn yr efengyl ac yng nghymdeithas yr Eglwys. Cyfarfu pwyllgor ar 18fed Gorffennaf i drafod y cynlluniau ar gyfer tymor yr Hydref. Ar y Sul cyntaf a'r trydydd o bob mis fe gynhelir gwaith plant am 10.00 a yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd. Ar Sul cyntaf Llanllanast fydd y gweithgarwch. Ar yr ail ar pedwerydd Sul y mae gwaith plant yn cael ei gynnal gan Angor am 4.30 yng Nghanolfan Reach yn Grangetown. Diolch i Catrin ac Ifan Roberts, Esyllt Jones, Carys Mair Jones, A Huw a Luned Aaron am eu cymorth parod. Gofynnwn i chi fel aelodau i weddio yn gyson tros ein gwaith gyda theuluoedd a phlant, Mae trefniadau mis Medi a Hydref i'w gweld ar y dudalen nesaf.



# HYDREF

**Hydref 1af: Canolfan yr Eglwysnewydd.**
Llan Llanast - Thema: **DIOLCH AM Y BYD**
Gemau, Stori, Canu a Bwyd. (10:00yb - 11:30yb



**Hydref 8fed a 22ain: Canolfan Reach, Grangetown.** Clwb Beiblaidd yn llawn hwyl, i blant oedran cynradd yn cynnwys, crefftau, stori, gemau a snacs.

**Hydref 15fed: Canolfan yr Eglwysnewydd.**
Clwb Beiblaidd yn llawn hwyl i blant oedran cynradd yn cynnwys, crefftau, stori gemau a snacs. (10:00yb - 11:00yb)





# TACHWEDD

**Tachwedd 5ed: Canolfan yr Eglwysnewydd.**
Llan Llanast - Thema: **GOFALU AM Y BYD**
Gemau, Stori, Canu, Bwyd.
(10:00yb - 11:30yb

**Tachwedd 12fed a 26ain: Canolfan Reach, Grangetown.** Clwb Beiblaidd yn llawn hwyl, i blant oedran cynradd yn cynnwys, crefftau, stori, gemau a snacs. (4:30yp - 5:30yp)

**Tachwedd 19eg: Canolfan yr Eglwysnewydd.**
Clwb Beiblaidd yn llawn hwyl i blant oedran cynradd yn cynnwys, crefftau, stori gemau a snacs. (10:00yb - 11:00yb)

## Newyddion

### Cleifion

Roedd yn destun braw a gofid i ni glywed am salwch difrifol Gwilym Jeffs ddiwedd mis Gorffennaf. Ar ôl cyfnod yn yr uned gofal ddwys yn Ysbyty'r Waun, cafodd Gwilym ei symud i ward. Ar ôl pythefnos yn yr ysbyty mae bellach wedi dychwelyd gartref ac mae'n ymgryfhau. Rydym yn cofio yn annwyl amdano, ac Alys, Nel a Ioan yn ein gweddïau. Dymunwn adferiad iechyd llwyr i Gwilym.

Y mae Glesni Whettleton wedi dychwelyd yn ôl i'w chartref yn Llysfaen, yn dilyn cyfnod hir yn yr ysbyty. Pob dymuniad da iddi wrth ymgryfhau.

Mae Beti Pierce, Penylan yn Ysbyty Dewi Sant. Pob dymuniad da iddi.

Cofiwn am ein haelodau sy'n derbyn triniaeth gyson dan law'r meddyg; cofiwn am Melora Parry, Helen Hilling ac Annick Moseley yn ein gweddïau. Cofiwn yn ogystal am ein cyd-aelodau sy'n gaeth i'w cartrefi a chartrefi gofal: Rosaline Bowen, Beti Pierce, Mair Bennett, Delor Wedlake, Hazel Doull, Rhiannon Jones, a Mair Evans.

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Elwyn Moseley, a ddathlodd ei ben-blwydd yn 80 oed ym mis Awst. Pob dymuniad da iddo. Braf clywed ei fod wedi ymgryfhau ar ôl derbyn llawdriniaeth yn yr ysbyty fis Gorffennaf.

Llongyfarchiadau mawr i Branwen Jones, un o dair myfyrwraig yn Ysgol Feddygol Prifysgol Abertawe y dyfarnwyd Gwobr Meddygaeth William Salesbury iddynt. Dyfernir y wobr am arloesedd prosiect ymchwil trwy gyfryng y Gymraeg, neu am weithgareddau eraill trwy gyfrwng y Gymraeg o fewn maes meddygaeth (Llun ar y dudalen gefn).

### Priodas



Llongyfarchiadau i Lowri Tudur a Will Eveleigh, ar eu priodas ym mis Gorffennaf. Mae Mr a Mrs Tudur-Eveleigh wedi ymgartrefu yn ardal y Rhath. Pob dymuniad da iddynt a phob bendith i'r dyfodol.

Priododd Ioan Evans â Nia Davies ar 20fed o Fai, n Eglwys y Drindod Sanctaidd, Pontargothi. Mae'r ddau yn athrawon yn Ysgol Glantaf ac wedi ymgartrefu yn ardal y Mynydd Bychan. (Llun ar y dudalen gefn.)

## Anrhydedd

Braf iawn oedd clywed am seremoni i anrhydeddu Malcolm Thomas a'r diweddar Keri Evans yn Ysgol Glantaf ddiwedd tymor yr haf nodi eu cyfraniad mawr i Ysgol Glantaf. Malcom oedd prifathro cyntaf Ysgol Gymraeg Glantaf, ac fe ail enwyd ystafell arall ar ei ôl ef a'r diweddar Keri Evans, a fu'n athro chwaraeon brwdfrydig a gweithgar yn Ysgol Glantaf. (Llun o Malcolm a'r prifathro presennol, Matthew Evans ar y dudalen gefn a mwy o hanes ar dudalen 14).

## Diolch yn fawr

Diolch yn fawr i Mair Robins am ei brodwaith, ac am drwsio lliain y Cymun sy'n harddu'r bwrdd Cymun.

Diolch i John a Tudur am osod y faner newydd tu allan I'r ganolfan. (Llun ar y dudalen gefn).

## Genedigaeth

Llongyfarchiadau mawr i Carys a Gruffydd Evans ar enedigaeth Noa Gruffydd Efans ar 15 o Orffennaf. Llongyfarchiadau i mamgu a thadcu, sef Gweneth ac Alun Evans. (Llun ar y dudalen gefn).

## Dymuniadau Gorau

Pob dymuniad da i Elin Harding, sydd wedi symud i weithio mewn ysgol gydol oes, sef Ysgol Brydeinig Dubai Jumeriah Park, lle bydd bydd yn dysgu blwyddyn 6, am gyfnod o ddwy flynedd. Dechreuodd yn ei swydd newydd ar 18fed o Awst. Yn rhifyn nesaf y Llusern bydd Elin yn rhoi ychydig o'i hanes i ni ers symud yna.

## Cyngerdd Haf - Diweddariad

Diolch i bawb ddaeth i'r Cyngerdd Haf a gynhaliwyd er budd Apêl DEC tuag at ddaeargryn Twrci a Syria, ac I bawb a gyfrannodd at yr apêl. Trosglwyddwyd swm o £1,800 i Tearfund ar 21/07/2023. Derbyniwyd llythyr o ddiolch gan Siân Stephen, DEC Cymru. Ceir copi o'r llythyr ar y dudalen nesaf ynghyd ag ymateb John Hayes ar ran Eglwys Ebeneser.

## Cydymdeimlad

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Margaret Jones yn Ysbyty'r Waun ar 23ain o Awst. Pob cydymdeimlad i'r meibion, Alun a Dafydd a'u teuluoedd. Cynhaliwyd gwasanaeth o ddiolch am ei bywyd am 2 o'r gloch prynhawn, dydd Llun Medi, 18fed yn Amlosgfa Bro Morgannwg, dan ofal y gweinidog Alun Tudur. Bu'n aelod diwyd a ffyddlon yn Ebeneser ers degawdau ac fe welir ei cholli'n fawr. Derbyniwyd cyfraniadau at Ymchwil Canser Cymru. Bydd teyrnged gan Alun Tudur yn y rhifyn nesaf.

Bu farw Mair Bennett yn ddisymwth yn 92 oed ar 20fed o Fedi. Pob cydymdeimlad i Petra ar golli ei mam. Coffa da amdani.

Bu farw Hazell Doull ar 23 o Fedi ar ôl cyfnod hir o salwch. Pob cydymdeimlad i Iolo, Alun ac Ioan yn eu colled a hiraeth. Byddwn yn gweld ei cholli.

## Gwasanaethau ar CD

Os hoffech gael copi o'r gwasanaethau ar y Sul ar CD wedi ei bostio i'ch cartref cysylltwch gyda Tudur Jones.

## Dillad a Bwyd

Mae elusen Enfys Gobaith yn ddiolchgar iawn o'r bwyd a'r dillad yr ydych wedi eu cyfrannu yn ystod y misoedd diwethaf. Maent yn cael eu rhoi yn gyson i'r anghenus yma yng Nghaerdydd. Diolch i chi am eich haelioni. Byddwn yn casglu bwydydd sychion yn ystod yr wythnos gyntaf lawn o bob mis. Os hoffech gyfrannu, tuniau llysiau, ffrwythau, cig, pysgod, cawl, ffa ayyb; pasta, reis, te, coffi, llaeth UHT byddem yn dra diolchgar. Cysylltwch gyda Tudur Jones er mwyn trefnu casglu.



## E-bost

Os hoffech dderbyn e-bost wythnosol Ebeneser anfonwch neges at ebenesercaerdydd1@gmail.com

## Recordiadau

Gellir gwrando ar holl bregethau Ebeneser ar wefan Soundcloud. Maent yn cael eu gosod yno'n wythnosol. Diolch i Tudur. Gellir gwylio ffrwd byw o oedfa bore Ebeneser ar ein tudalen Facebook ac yna ar Youtube. Diolch yn fawr iawn i Seren Jones am ei help.

## Tîm Digidol

Rydym yn chwilio am aelodau i helpu gydag ochr ddigidol bywyd Ebeneser. Bellach yn wythnosol y mae elfennau digidol sydd yn rhan bwysig o'n gwaith a'n tystiolaeth. E.e., PowerPoints, ffrwd byw, podlediad, Youtube, Trydar (Twitter), Gweplyfr (Facebook), cryno ddisgiau o'r oedfaon a'r wefan.

## Gosod a Gofal

Hoffem ddiolch i'r holl aelodau sydd wedi cynorthwyo gyda gosod popeth yn ei le ar fore Sul. Mae wedi golygu llawer o waith ychwanegol. Diolch i Eynon am baratoi'r rota ac i Tudur, John a Petra am eu holl help

---

**CYFRANIADAU** Diolch yn fawr iawn i bawb ohonoch sydd wedi anfon cyfraniadau at waith Eglwys Ebeneser yn ystod 2023 hyd yn hyn. Gwerthfawrogwn yn fawr iawn eich haelioni tuag at waith hollbwysig yr Arglwydd Iesu trwy gyfrwng Ebeneser. Mae nifer o aelodau bellach yn cyfrannu'n fisol trwy archeb banc. Os nad ydych eto wedi cael cyfle i gyfrannu hoffem eich gwahodd i barhau i gyfrannu at waith yr eglwys, un ai: Trwy siec yn daladwy i Eglwys Ebeneser Caerdydd, at y Trysorydd, Eilir Jones, 9 Clos y Bryn, Caerdydd. CF14 6TR. Neu, taliad yn uniongyrchol i gyfrif banc HSBC yr Eglwys – cod sortio 40-16-35, rhif y cyfrif 81042882, gan nodi eich enw fel cyfeirnod. Gyda diolch o flaen llaw am eich haelioni.

## Sefyllfa diweddaraf Paradise Run

Fel y gwyddoch mae tim o aelodau'r eglwys yn awyddus ac yn barod i ail-gydio yng nghynllun Paradise Run, sef project bwydo'r digartref yn y ddinas. Cyn y pandemig roedd y cynllun yn gweithredu'n effeithiol gyda bwyd cynnes yn cael ei ddarparu ar bob noson o'r wythnos gan eglwysi a chymdeithasau amrywiol i'r digartref. Roedd yr eglwys yn cyfrannu yn rheolaidd i'r project dan arweiniad Delyth a Gill.

Mae'n amlwg erbyn hyn nad yw'r cynllun wedi llwyddo i ail-gydio ers y pandemig am amryw o resymau. Mae cydlynydd y project, Liz Perret-Atkins yn awyddus i ail-lawnsio'r project ond mae hynny yn ddibynnol ar gael eglwysi a mudiadau i ymrwymo i gynnig cefnogaeth rheolaidd; derbyn sel a bendith swyddogion Awdurdod Dinas Caerdydd a hysbysu'r di-gartref fod y cynllun yn ail-gychwyn. Nes y bydd Liz yn cadarnhau fod y cynllun am ail-gychwyn, mae'n rhaid i ni oedi ein trefniadau a'n cynllun.

Mae Liz yn arwain canolfan 'Rainbow of Hope' sydd wedi ei leoli ar Broad Street, Splott. Mae'n ganolfan sy'n cynnig lloches, cefnogaeth a chynhaliaeth i'r digartref ac i ymgeiswyr lloches. Mae'r ganolfan yn brysur tu hwnt; mae yno gaffi sy'n darparu bwyd a diod i'r ymwelwyr cyson, banc bwyd, dillad ail law a chyngor ymarferol. Fel y gwyddoch mae Tudur ac Alun yn ymwelwyr cyson i'r ganolfan ac yn mynd a'r casgliadau bwyd sych o'r aelodau yno yn rheolaidd.

Mae Liz yn awyddus i glywed gan unrhyw un fyddai'n fodlon cynnig cefnogaeth gweinyddol gwirfoddol yn y swyddfa yng nghanolfan Rainbow of Hope am ychydig oriau yr wythnos yn unig (2-3 awr) ar ddyddiau Llun, Mercher neu Gwener.

Mae'n bosib cysylltu efo Liz trwy ebost: rainbowliz@btinternet.com

John Hayes

## Ystafell Gyfarfod
## Mr Malcolm Thomas



Mr J. E. Malcolm Thomas oedd Prifathro cyntaf Glantaf pan agorodd yr ysgol yn 1978. Pan agorodd yr ysgol dim ond 100 o ddisgyblion oedd yn yr ysgol ac roedd yn rhannu'r safle gyda *Glantaf High School*. Roedd Mr Thomas yn brifathro am 16 mlynedd cyn ymddeol yn 1995. Yn y dyddiau hynny roedd plant yn teithio yn bell iawn i ddod i Glantaf er mwyn derbyn addysg Gymraeg.

Sefydlodd yr ysgol yn gadarn gan arwain addysg Gymraeg yn y ddinas, yn recriwtio staff i ddysgu drwy'r Gymraeg am y tro cyntaf ac i gynnig holl brofiadau'r ysgol yn y Gymraeg. Roedd yn brifathro poblogaidd dros ben, yn adnabod disgyblion fel unigolion ac wrth ei fodd yn sgwrsio gyda phlant a phobl ifanc a chlywed eu hanes.

Roedd yn ddyfarnwr rygbi gydag Undeb Rygbi Cymru, yn gefnogwr brwd o dimau Chwaraeon Glantaf a pob blwyddyn mae **Gwobr "*Chwarae Teg*" Malcolm Thomas** yn cael ei roi i ddisgybl yn Glantaf am eu cyfraniad i'r ysgol.

Mae ysgolion Glantaf, Bro Morgannwg, Plasmawr a Bro Edern yn cystadlu am Gwpan Rygbi 7 bob ochr Malcolm Thomas ar Parc yr Arfau, Caerdydd bob blwyddyn yn Mis Rhagfyr.

YSGOL GYFUN GYMRAEG GLANTAF
CORON GWLAD EI MAMIAITH

*Coron Gwlad ei Mamiaith*

---

'...oherwydd rhoddwr llawen y mae Duw'n ei garu.'
(2 Corinthiaid 9:7 bcnd)



# Calendr

Cynhelir oedfa'r bore yng Nghanolfan yr Eglwysnewydd, Old Church Rd, CF14 1AD.

Cynhelir oedfa'r pnawn yng nghapel y Methodistiaid, Penlline Rd, CF14 2AA

*Cynhelir Angor ar yr ail ar pedwerydd Sul o bob mis yn Reach Centre, Avondale Street, Grangetown, CF11 7DT

Pob nos Lun am 7.30 y,h., cynhelir y cwrdd gweddi yng nghapel y Methodistiaid ac ar Zoom. Dolen yn yr e-bost wythnosol.

## Suliau mis Hydref

1 Hydref – 10.00 yb Llan Llanast I bawb a 3.00 yp.
Ifan a Catrin Roberts. (bore a phnawn) (cymun pnawn).

8 Hydref - 10.00 yb a 3.00 yp. Rosa Hunt, Tabernacl (bore a phnawn)

15 Hydref - 10.00 yb. a 3.00 yp. Cynan Llwyd (bore a phnawn) (cymun pnawn).

22 Hydref - 10.00 yb. Heulwen Davies, Llanelli 3.00 yp. Gwil Jeffs.

29 Hydref - 10.00 yb. a 3.00 yp. I'w drefnu  (bore a phnawn).

## Suliau mis Tachwedd

5 Tachwedd - 10.00 yb. a 3.00 yp. Nan Wyn Powell-Davies - Ysgrifennydd Cyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru (bore a phnawn) (cymun bore).

12 Tachwedd 10.00 yb. Arfon Jones.  3.00 yp. Rhodri Jones

19 Tachwedd 10.00 yb. a 3.00 yp. Cynan Llwyd (bore a phnawn) (cymun pnawn).

26 Tachwedd -10.00 y.b. a 3.00 yp. Arwel Jones,
Caernarfon (bore a phnawn)




Gwobr Meddygaeth
William Salesbury
2023
Coleg
Cymraeg
Cenedlaethol
Branwen Jones
Gwobr Meddygaeth
William Salesbury
2023
Coleg
Cymraeg
Cenedlaethol








LLEWYRCHED FELLY EICH GOLEUNI MATH. 5:16
EGLWYS EBENESER
CAERDYDD
YMA POB BORE SUL AM 10.00
CROESO CYNNES I BOB OED
EBENESER.CYMRU • FACEBOOK.COM/EBENESER.CAERDYDD